**ATODIAD 1**

**CYNIGION ARBEDION EFFEITHLONRWYDD 2014 – 2017**

| | |
|---|---|
| **Teitl y syniad** | **Ffioedd proffesiynol cyfreithiol** |
| **Adran** | **Plant a cefnogi Teuluoedd** |

**Beth yw'r cynnig?**
Yn dilyn cyflwyno trefn PLO (Public Law Outline) newydd, sydd yn ffordd o ddelio a rheoli achosion gofal yn amserol yn y llys rydym wedi gweld y gostyngiad a ragwelir yn y defnydd o arbenigwyr, gyda disgwyliad bod gweithwyr Cymdeithasol yn y sefyllfa orau lle bo hynny'n bosibl i gwblhau asesiadau . Mae hyn wedi arwain at ostyngiad yn y nifer o arbenigwyr yn cael eu comisiynu.

| | |
|---|---|
| **A yw'n gynnig cadarn neu amlinellol?** | Cadarn |
| **Swm i'w arbed** | £32,000 |

**Ar gychwyn pa chwartrer o'r flwyddyn ariannol y gellid tynnu'r swm allan or gyllideb?**
Chwarter 3

**Effaith ar Bobl Gwynedd**
Dim effaith ar bobl Gwynedd gan bod gwaith asesu yn digwydd gan gweithwyr cymdeithasol yn hytrach na arbenigwyr wedi comisiynu gan llysoedd fel ymateb i'r drefn PLO newydd.

**Effaith ar gynlluniau'r Cynllun Strategol / Polisi**

**Effaith ar faterion Cydraddoldeb**
Ni welwyd unrhyw effaith mewn unrhyw un o'r grwpiau gan bod y gwaith asesu yn parhau i ddigwydd.

**Effaith ar Staff**
Dim effaith ar staff.

**Effaith Gofodol**
Dim effaith.

**CYNIGION ARBEDION EFFEITHLONRWYDD 2014 – 2017**

| | |
|---|---|
| **Teitl y syniad** | **Cynllun Teithio** |
| **Adran** | **Plant a Chefnogi Teuluoedd** |

**Beth yw'r cynnig?**
Defnyddio ceir pwl er mwyn lleihau gwariant teithio.

| | |
|---|---|
| **A yw'n gynnig cadarn neu amlinellol?** | Cadarn |
| **Swm i'w arbed** | £30,000 |

**Ar gychwyn pa chwartrer o'r flwyddyn ariannol y gellid tynnu'r swm allan or gyllideb?**
Ch4, 2015-6

**Effaith ar Bobl Gwynedd**
Dim effaith negyddol o safbwynt daprau gwasanaeth. Gellir dadlau mai dim ond effaith gadarnhaol yw'r datblygiad hwn. Mae'n cynnig modd o leihau costau'r Cyngor i ddarparu'r un lefel o wasanaeth. Mae'n golygu y bydd plant yn cael eu cludo mewn ceir sydd yn cael eu cynnal a'u cadw i safon y Cyngor, a gan eu bod yn geir newydd mae'r allbwn carbon hefyd yn isel, ac yn sgil hynny yn cyfrannu tuag at leihau ôl troed carbon y Cyngor.

**Effaith ar gynlluniau'r Cynllun Strategol / Polisi**
Dim effaith

**Effaith ar faterion Cydraddoldeb**
Nid yw'n newid y gwasanaeth a ddarperir i unrhyw grwp penodol o bobl.

**Effaith ar Staff**
Bydd staff o ganlyniad yn parhau i ddefnyddio eu ceir personol i bwrpas busnes y Cyngor, ond bydd llai o ddefnydd gan y bydd ceir pwl ar gael. Bydd lleihad yng nghostau teithio, a law yn llaw a hynny lleihad mewn costau cynnal a chadw i staff ar eu cei personol.

**Effaith Gofodol**
Mae'n wasanaeth sirol.

## CYNIGION ARBEDION EFFEITHLONRWYDD 2014 – 2017

| | |
|---|---|
| **Teitl y syniad** | **Cynlluniau Derwen** |
| **Adran** | **Plant a Chefnogi Teuluoedd** |

**Beth yw'r cynnig?**
Adolygu strwythur y gwasanaeth cefnogol a ddarperir gan Derwen. Mae'n golygu ystyried opsiynau o safbwynt darparu math gwahanol o wasanaeth i rai teuluoedd.

| | |
|---|---|
| **A yw'n gynnig cadarn neu amlinellol?** | amlinellol |
| **Swm i'w arbed** | £50,000 |

**Ar gychwyn pa chwartrer o'r flwyddyn ariannol y gellid tynnu'r swm allan or gyllideb?**
Ch4, 2015-6 - £50,000

**Effaith ar Bobl Gwynedd**
Fel Tîm integredig ar gyfer plant anabl, mae'r gwasanaeth ar gyfer carfan benodol o blant Gwynedd. Mae'r gwasanaeth cefnogol yn darparu ystod o wasanaethau, sy'n cynnwys cefnogaeth ymarferol o 2-3 awr yr wythnos fel cyfnod o egwyl fer i deulu, ac weithiau cyfnodau llawer hirach er mwyn cefnogi sefyllfaoedd cymhleth ac arbed plentyn dod mewn i ofal. Mae tua 150 o deuluoedd yn derbyn gwasanaeth cefnogol. Er bod yr adolygiad yn golygu newid mewn darpariaeth, mae'n cynnig cyfle i wella ansawdd y gwasanaeth a'r gweithlu, i ddatblygu gwaith ataliol a datblygu sgiliau teuluoedd. Y bwriad yw symud oddiwrth darpariaeth draddodiadol o ddarparu gweithiwr cefnogol yn unig, gan ddatblygu pecynnau gwaith unigol gyda theuluoedd. Bydd elfen o waith cefnogol traddodiadol yn parhau, ond gyda llawer mwy o bwyslais ar ddatblygu sgiliau unigolion i fod yn fwy annibynnol.

**Effaith ar gynlluniau'r Cynllun Strategol / Polisi**
Dim effaith.

**Effaith ar faterion Cydraddoldeb**
Mae'r gwasanaeth ar gyfer carfan benodol o blant anabl a phlant gwael o fewn Gwynedd. O fewn meini prawf y gwasanaeth nid oes gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, crefydd ayyb. Nid yw'r adolygiad hwn yn effeithio ar hynny.

**Effaith ar Staff**
O ganlyniad i'r adolygiad bydd angen newid strwythur presennol y tîm, a bydd hynny'n effeithio ar bob aelod staff. Bydd cytundebau gwaith rhai aelodau staff o bosib yn newid. Mae'n gyfle hefyd i geisio rhoi strwythur datblygiad gyrfa well i staff gan fydd angen swyddi gyda lefelau gwahanol o sgiliau i ymateb i ystod anghenion y plant sy'n derbyn gwasanaeth.

**Effaith Gofodol**
Mae'n wasanaeth sirol ac felly mi fydd effaith y newid ar draws yr holl Sir.

**TEMPLED CYNIGION ARBEDION EFFEITHLONRWYDD 2015-2018**

| |
|---|
| **Teitl y syniad:**<br>**OED25 : Pecynnau gofal cartref – galwadau paratoi prydau bwyd (Brecwast, Cinio a Thê).** |
| **Adran**<br>Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| **Beth yw'r cynnig:**<br>Gall pecynnau Gofal Cartref gynnwys galwadau i baratoi prydau bwyd megis brecwast, cinio a swper yng nghartref y defnyddwyr. Rhan amlaf, mae'r gofalwyr yn paratoi/cynhesu bwyd wedi ei baratoi yn barod a'i rewi gan gwmni e.e. Wiltshire Farmfoods. Y cynnig yw ail-edrych ar y ddarpariaeth a gomisiynir yn bresennol ac adnabod darpariaeth amgen i gwrdd â'r angen e.e. darpariaeth clybiau cinio o fewn cymunedau; defnydd o gaffis/bwytai lleol ayyb. Y cynnig yw ystyried nid yn unig sut i ddarparu prydau bwyd i ddefnyddwyr, ond hefyd sut i gynnig cyfleoedd cymdeithasu a hybu annibyniaeth defnyddwyr presennol gan ddefnyddio'r asedau sydd yn bodoli yn barod o fewn cymunedau yng Ngwynedd. |
| **A yw'n gynnig cadarn neu amlinellol?**<br>dCadarn |
| **Swm i'w arbed**<br>Cyfanswm = **£150,000** |
| **Ar gychwyn pa chwarter o'r flwyddyn ariannol y gellid tynnu'r swm allan o'r gyllideb?**<br>£50,000 – chwarter 1 2016/17<br>£100,000 – chwarer 1 2017/18 |
| |
| **Effaith ar bobl Gwynedd**<br>Byddai effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd a'u gofalwyr, wrth i'r disgwyliadau ohonynt addasu. Wrth barhau i gwrdd â gofynion statudol a diwallu anghenion gofal, byddai'n rhaid cydnabod y byddai her o ran rheoli'r newid ym mywydau lawer iawn o unigolion, a chefnogi pobl trwy gyfnod o ansefydlogrwydd yn eu bywydau. |
| **Effaith ar gynlluniau'r Cynllun Strategol / Polisi**<br>Mae'r cynnig yn cyd-fynd yn gyfan gwbl ag amcanion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o ran cynnal annibyniaeth pobl; hyrwyddo gwasanaethau ataliol; defnyddio asedau cymunedol a hyrwyddo gwasanaethau trydydd sector (a gyda Ffordd Gwynedd o ran hynny!). |
| **Effaith ar faterion Cydraddoldeb**<br>Gallai'r bwriad gael effaith ar rai bobl fwyaf bregus cymdeithas o'r herwydd. Rhaid pwysleisio na fyddai unrhyw anghenion gofal fyddai yn codi o asesiad yn cael eu hepgor ond yn hytrach y byddai yr angehnion yn cael eu diwallu mewn modd amgen. |
| **Effaith ar Staff**<br>Gall hyn arwain at leihad oriau i rai aelodau staff Gofal Cartref os yw maint pecynnau yn lleihau pe bai trefniadau am ddarpariaeth amgen yn cael eu rhoi mewn lle ond gall rhyddhau oriau fod yn hynod fanteisiol yn y rhannau hynny o'r Sir lle wynebir problemau recriwtio gofalwyr yn y gweithlu Mewnol ac yn y sector |

| |
|---|
| breifat. |
| **Effaith Gofodol**<br>Dim effaith gofodol amlwg, ond byddai’n rhaid sicrhau nad yw trigolion yn ardaloedd mwyaf gwledig y Sir o dan anfantais. Er enghraifft, os tynnir gwasanaeth cludiant gan wneud defnydd o gludiant cyhoeddus yn ofynnol, bydd rhaid sicrhau bod y gwasanaeth cyhoeddus hynny ar gael. |

## TEMPLED CYNIGION ARBEDION EFFEITHLONRWYDD 2015-2018

**Teitl y syniad –** OED 27
Gweithio’n electronig ar draws y 3 Ardal.

**Adran**
Oedolion, Iechyd a Llesiant.

**Beth yw’r cynnig**
Mae’r cynnig hwn yn ymwneud ag adolygu trefniadau ffeiliau papur o fewn Timau Ardal Oedolion.

Yn hanesyddol mae ffeil bapur wedi ei hagor ar gyfer pob cleient sy’n derbyn Gwasanaeth. I ymdopi ar holl ffeiliau papur mae niferoedd mawr o gypyrddau ffeilio o gwmpas y swyddfeydd. Pan mae ffeil yn cau e.e. yn dilyn marwolaeth mae gofyn storio'r ffeiliau am gyfnod o 6 mlynedd sy’n golygu bod angen storfeydd sy’n dal miloedd o ffeiliau. Felly mae gennym system ffeilio fawr - oddeutu 24,000 o ffeiliau.

I gynnal y system bapur mae trefn weinyddol bendant yn bodoli i estyn a chadw ffeiliau, cau ffeiliau gan sicrhau eu bod yn gyflawn, trefnu cau/archwilio ffeiliau/ bocsio/ dinistrio gan gofnodi’n barhaus ar y system RAISE.

Penderfynwyd creu trefn di-bapur ar gyfer y timau oedolion a fyddai’n rhyddhau'r gweithiwr cymdeithasol i gadw gwybodaeth mewn un lle sef yn electroneg ar RAISE. Ni fyddai ffeiliau papur yn cael eu creu mwyach. Manteisiwyd ar y cyfle hwn hefyd i adolygu a newid y drefn o ddefnyddio’r ‘drive’ ar y cyfrifiaduron er mwyn sefydlu cysondeb a threfn newydd. Cynhaliwyd peilot yn Nhîm Oedolion, ardal Meirionnydd ac ar ôl adolygiad 6 mis penderfynwyd ymestyn y drefn i’r ddwy ardal arall.

Wrth gwrs wrth ddileu un drefn mae un arall yn cael ei chreu ac mae hyn yn wir wrth weithredu’n ddi-bapur oherwydd gwelwyd bod y pwysau wedi symud o bapur i drefn sganio a chreu system ffeilio papur arall. Rhaid cofio nad yw’r drefn newydd yn ein rhyddhau o’n cyfrifoldeb i reoli’r holl ffeiliau hanesyddol sydd gennym o fewn ein storfeydd presennol.

Mae’r cynllun yn sicr wedi bod yn llwyddiannus gan nad oes ffeiliau papur yn cael eu creu mwyach o fewn Timau Oedolion. Y cam nesaf yw ymestyn y cynllun i’r Timau Anabledd Dysgu.

Rydym yn rhagweld y bydd arbedion yn dod i’r amlwg sef:-

1. Cwtogi ar ofynion gofod swyddfa /storfeydd.
   Hyd yma mae’r cynllun hwn wedi cyfrannu at ganiatáu i Swyddfa Ardal Meirionnydd
   symud o’r Lawnt i Benarlâg fel rhan o gynllun arbedion y Cyngor.
2. Fel mae’r prosiect yn mynd yn ei flaen bydd yn bosib mesur yr effaith ar y gefnogaeth weinyddol fydd ei angen.

| |
|---|
| |
| **A yw'n gynnig cadarn neu amlinellol?**<br><br>Amlinellol yn bennaf .<br>Mae'r pwynt 1 wedi ei wireddu o ran cyfrannu at arbedion i'r Cyngor. Mae'r Lawnt eisoes wedi ei roi ar y farchnad agored ar gyfer gwerthu.<br>Mae pwynt 2 o dan adolygiad cyson. |
| **Swm i'w arbed**<br>£17,664<br>2016/17 - Amcangyfrif oddeutu £ 17,664 |
| **Ar gychwyn pa chwarter o'r flwyddyn ariannol y gellid tynnu'r swm allan o'r gyllideb?**<br>Chwarter 3 |
| |
| **Effaith ar bobl Gwynedd**<br>Mae'r drefn newydd wedi hwyluso gwaith y Gweithiwr Cymdeithasol gan fod yr wybodaeth gyflawn am y cleient ar gael yn syth ar RAISE wrth iddo drafod yn uniongyrchol gyda'r defnyddiwr Gwasanaeth. |
| **Effaith ar gynlluniau'r Cynllun Strategol / Polis**<br>Nid yw'n groes i egwyddorion yr uchod. |
| **Effaith ar faterion Cydraddoldeb**<br>Gobeithio y bydd yn gwella profiad y defnyddiwr gwasanaeth wrth ymwneud a'r Adran ar adeg anodd yn eu bywydau. |
| **Effaith ar Staff**<br>Effaith ar swyddi Clerc Bwydo Data o bosib. Bydd angen ail edrych ar y swydd ddisgrifiad er mwyn ei addasu ar gyfer y tasgau newydd i gynnal y drefn di-bapur a thrwy hynny adnabod arbedion. Bydd angen adolygu swydd ddisgrifiad staff sy'n ymwneud a ffeilio er mwyn adnabod arbedion posib drwy gymharu llafur gweinyddu'r hen drefn gyda'r drefn newydd. Yn ogystal, rhagwelir y bydd yr angen am ofod swyddfeydd/storfeydd yn lleihau. |
| **Effaith Gofodol**<br>Ni ragwelir unrhyw effaith gofodol. |

**TEMPLED CYNIGION ARBEDION EFFEITHLONRWYDD 2015-2018**

| |
|---|
| **Teitl y syniad : OED 29** Cyllideb y 3ydd Sector (gwella effeithlonrwydd y sector) |
| **Adran**<br>Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| **Beth yw'r cynnig**<br>Gosod targed i bob sefydliad trydydd sector sy'n derbyn grantiau / cytundebau lefel gwasanaeth gennym wneud arbediad effeithlonrwydd o 10%, hynny yw, sicrhau arbedion na fyddai'n cael effaith ar y defnyddwyr gwasanaeth – gallai hyn gynnwys adolygu trefniadau gweinyddol neu reolaethol, sicrhau cytundebau gwell ar gyfer darpariaeth cefnogaeth cyllid / TG / adnoddau dynol a darparu gwasanaethau swyddfa gefn mewn modd llai biwrocrataidd.<br>Ar hyn o bryd, rydym yn y broses o ystyried pa wasanaethau a ariennir trwy grant ddylai gael eu prynu trwy broses dendro. Mae'n bosib y byddai hyn yn dod ag elfen o'r swm y disgwylir y gellir ei arbed. |
| **A yw'n gynnig cadarn neu amlinellol?**<br>Cadarn |
| **Swm i'w arbed**<br>Cyfanswm = **£65,000** |
| **Ar gychwyn pa chwarter o'r flwyddyn ariannol y gellid tynnu'r swm alan o'r gyllideb?**<br>Chwarter 1 – 2017-18 |
| **Effaith ar bobl Gwynedd**<br>Dim effaith, oherwydd byddai disgwyl i'r arbedion gael eu gwneud trwy wario llai ar agweddau megis cefnogaeth TG, gweinyddiaeth a chynnal prosesau busnes. |
| **Effaith ar gynlluniau'r Cynllun Strategol / Polisi**<br>Dim |
| **Effaith ar faterion Cydraddoldeb**<br>Dim |
| **Effaith ar Staff**<br>Dim effaith ar staff mewnol, ond fe allai olygu bod sefydliadau trydydd sector, wrth gynyddu eu heffeithlonrwydd, yn medru cynnal gwasanaethau gyda llai o fewnbwn staff gweinyddol / swyddfa gefn. |
| **Effaith Gofodol**<br>Dim |

**TEMPLED CYNIGION ARBEDION EFFEITHLONRWYDD 2015-2018**

| |
|---|
| **Teitl y syniad OED 34**<br>**Gwella Effeithlonrwydd Gweithwyr Maes (4 swydd)** |
| **Adran**<br>Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| **Beth yw'r cynnig**<br>Gweithredu rhaglenni i newid y ffordd y mae gweithwyr maes yn gweithio. Man yn bennaf yn ymwneud â symlhau prosesau gwaith, cefnogaeth TG briodol a rhaglennu gwaith effeithiol. Mae lleihau biwrocratiaeth ac addasu yng nghyd-destun gwaith Alltwen hefyd yn hynod ddylanwadol. |
| **A yw'n gynnig cadarn neu amlinellol?**<br>Amlinellol |
| **Swm i'w arbed**<br><br>Cyfanswm = **£150,000** |
| **Ar gychwyn pa chwarter o'r flwyddyn ariannol y gellid tynnu'r swm allan o'r gyllideb?**<br>£37,000 – chwarter 3 2016/17<br>£113,000 – chwarter 3 – 2017/18 |
| |
| **Effaith ar bobl Gwynedd**<br>Ni ddylai trigolion Gwynedd weld unrhyw effaith o'r newid. |
| **Effaith ar gynlluniau'r Cynllun Strategol / Polis**<br>Mae'r cynnig yn cyd-fynd yn gyfan gwbl ag amcanion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o ran cynnal annibyniaeth pobl; hyrwyddo gwasanaethau ataliol; defnyddio asedau cymunedol a hyrwyddo gwasanaethau trydydd sector (a gyda Ffordd Gwynedd o ran hynny!). |
| **Effaith ar faterion Cydraddoldeb**<br>Ni ragwelir unrhyw effaith ar ystyriaethau cydraddoldeb. |
| **Effaith ar Staff**<br>Bydd y cynllun yn arwain at leihad o 4 swydd a gallai hyn gael effaith o ran pwysau ar staff yn y cyfnod trosiannol. Ni ragwelir y byddai hynny yn effaith tymor hir. |
| **Effaith Gofodol**<br>Bydd capasiti staff yn cael ei ddarparu ar sail amgen ac felly ni ragwelir unrhyw effaith gofodol. |

**TEMPLED CYNIGION ARBEDION EFFEITHLONRWYDD 2015-2018**

| |
|---|
| **Teitl y syniad CC 3** Diddymu dwy swydd rhan amser o fewn y Gwasanaeth Cofrestru |
| **Adran**<br>Oedolion, Iechyd a Llesiant (Gwasanaeth Cofrestru) |
| **Beth yw'r cynnig**<br>a) Crebachu ar y nifer o apwyntiadau ar gyfer seremonïau y gellid eu cyflawni ar unrhyw adeg<br>b) Gwneud defnydd o swyddogion Siopau Gwynedd a swyddogion gweinyddol o fewn y Gwasanaeth Cofrestru i gynorthwyo gyda gweithgareddau cofrestru genedigaethau a marwolaethau<br>c) Ymestyn y cyfnod ar gyfer darparu copïau o dystysgrifau o 5 diwrnod gwaith i 7 diwrnod gwaith |
| **A yw'n gynnig cadarn neu amlinellol?** *Amlinellol* |
| **Swm i'w arbed**<br>Cyfanswm = **£30,000** |
| **Ar gychwyn pa chwarter o'r flwyddyn ariannol y gellid tynnu'r swm allan o'r gyllideb?**<br>£24,500 - Chwarter 1 2017/18 |
| |
| **Effaith ar bobl Gwynedd**<br>a) Byddai llai o ddewis o ddyddiadau i gwsmeriaid ar rai adegau o'r flwyddyn i gynnal seremonïau.<br>b) Ni fyddai pob digwyddiad y byddai cwsmeriaid yn eu cofrestru yn cael eu prosesu bob amser gan Gofrestrydd<br>c) Byddai cwsmeriaid yn aros dau ddiwrnod gwaith yn hirach cyn derbyn copïau o dystysgrifau |
| **Effaith ar gynlluniau'r Cynllun Strategol / Polisi**<br>Mae angen hysbysebu unrhyw fwriad i newid darpariaeth y gwasanaeth yn unol â gofynion y GRO |
| **Effaith ar faterion Cydraddoldeb**<br>Mae holl staff parhaol y Gwasanaeth Cofrestru yn fenywaidd ond ni ragwelir unrhyw effaith cydraddoldeb ar y rhai sydd yn derbyn gwasanaeth. |
| **Effaith ar Staff**<br>Gallai gwireddu'r cynllun arwain at ddiswyddo<br>Byddai gofyn i staff newid patrwm gwaith ac ymgymryd â dyletswyddau newydd<br>Posib y bydd yna rhai staff yn gorfod adleoli |
| **Effaith Gofodol** Byddai'r cynllun yn cael effaith ar draws y Sir |

**TEMPLED CYNIGION ARBEDION EFFEITHLONRWYDD 2015-2018**

| |
|---|
| **Teitl y syniad : TAI 6: Adolygiad Prosesau a Chyfrifoldebau** |
| **Adran**<br>Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| **Beth yw'r cynnig:** Bydd yr Adran yn adolygu holl brosesau a chyfrifoldeb i adnabod posibiliadau i gyfuno ac i gael trefniadau gwaith mwy effeithiol. Gall hyn olygu torri ar wariant a chyfuno gwariant. Ar derfyn yr adolygiad byddwn yn edrych ar leihau cyllidebau a throsglwyddo cyfrifoldebau. |
| **A yw'n gynnig cadarn neu amlinellol?**<br><br>Amlinellol |
| **Swm i'w arbed**<br>2016/17 - £10,000<br>2017/18 - £20,000<br>Cyfanswm = **£30,000** |
| **Ar gychwyn pa chwarter o'r flwyddyn ariannol y gellid tynnu'r swm allan o'r gyllideb?**<br>£10,000 – 3ydd Chwarter – 2016/17<br>£20,000 – 3ydd Chwarer – 2017/18 |
| **Effaith ar bobl Gwynedd**<br>Byddwn yn ceisio cyfyngu ar yr effaith gan y byddwn yn adolygu prosesau a chyfuno cyfrifoldebau neu ddyletswyddau. |
| **Effaith ar gynlluniau'r Cynllun Strategol / Polis**<br>Erbyn hyn mae y fwy heriol cyflwyno newidiadau na fydd yn effeithio gallu'r Adran i wireddu rhai blaenoriaethau. Bydd llymder y cynlluniau toriadau hefyd yn debygol o gael effaith ond hyderir y gellid gweithredu yr elefn hon yn gymahrol ddi-boen. |
| **Effaith ar faterion Cydraddoldeb**<br>Mae yr Adran yn gwasanaethu unigolion bregus a difreintiedig, pobl digartef a phobl anabl. Byddwn yn ceisio cyfyngu ar effaith ar bobl hynny a sicrhau ein bod yn cynnal dyletswyddau statudol ond gall olygu lleihau lefel neu mewnbwn gwasanaeth mewn rhai meysydd. |
| **Effaith ar Staff**<br>Bydd nifer y staff yn ddibynnol ar lwyddiant yr adolygiad a'r gallu i gyfuno cyfrifoldebau. Rhagwelir y bydd yn golygu colli rhywfaint o adnodd staff oddi ar y strwythur yn ddibynnol ar lwyddiant yr adolygiad effeithlonrwydd. |
| **Effaith Gofodol**<br>Yn sgil y newid rhagwelir y bydd rhai cyfrifoldebau yn cael ei cyfuno mewn llai o leoliadau gwaith a gall olygu cyfyngu mynediad at rai gwasnaethau i amseroedd arbennig. |